# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

**2023 dsc 1**

## RHAN 1

Y CYNGOR PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

*Ei weithredu a'i weinyddu*

### 7 Cyfarfodydd, gweithdrefnau a chymorth gweinyddol

(1) Rhaid i'r CPG gyfarfod o leiaf 3 gwaith ym mhob cyfnod o 12 mis sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y gwnaeth y Prif Weinidog yr holl benodiadau cychwynnol a grybwyllir yn adran 2.

(2) Pan fo hynny'n bosibl, rhaid i'r Prif Weinidog gadeirio cyfarfodydd yr CPG.

(3) Pan na fo'n bosibl i'r Prif Weinidog gadeirio cyfarfod, rhaid i un o Weinidogion Cymru neu un o Ddirprwy Weinidogion Cymru a enwebwyd gan y Prif Weinidog gadeirio'r cyfarfod.

(4) O fewn 6 mis gan ddechrau â thrannoeth y diwrnod y daw'r is-adran hon i rym, rhaid i Weinidogion Cymru bennu a chyhoeddi—

(a) y cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr CPG, a

(b) y gweithdrefnau i'w dilyn gan yr CPG, i'r graddau nad ydynt wedi eu pennu yn y Ddeddf hon.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r CPG, ddiwygio unrhyw beth a bennir o dan is-adran (4) a rhaid iddynt gyhoeddi unrhyw ddiwygiadau o'r fath.

(6) Rhaid i weithdrefnau'r CPG gynnwys—

(a) y gweithdrefnau ar gyfer trefnu cyfarfodydd gan gynnwys y rhybudd sydd i'w roi i'r mynychwyr a sut y caiff mynychwyr ychwanegu eitemau at agenda cyfarfodydd;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, Adran 7. (See end of Document for details)*

(b) y weithdrefn ar gyfer datrys anghytuno rhwng aelodau mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r CPG;

(c) y gweithdrefnau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru beri bod cymorth gweinyddol ar gael i'r CPG.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

**I2** A. 7 mewn grym ar 29.7.2023 gan O.S. 2023/794, **ergl. 2(g)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, Adran 7.